**From:**
**Sent:** Wednesday, February 3, 2021 4:44 PM
**To:** Correspondence mail - KW <Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales>
**Subject:** Parthed: Addysg Uwchradd Cyfrwng Cymraeg Powys

Annwyl Kirsty Williams AS,

Hoffwn dderbyn eich ymateb i'r materion canlynol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhowys.

Mae Cynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Powys 2017 - 2020 a gymeradwywyd gan y Cabinet a Gweinidogion Llywodraeth Cymru 18 mis yn ôl, ac sydd dal mewn grym, yn nodi "Mae'r gwaith dichonolrwydd cychwynnol wedi adnabod Y Drenewydd a/neu Y Trallwng fel y lleoliad(au) mwyaf priodol i ddatblygu darpariaeth categori 2A."

Mae'n ymddangos for Cyngor Powys yn anwybyddu dogfen CSCA a'i gynigion. A yw Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am hyn, ac a ydych wedi cymeradwyo fod rhan 2.1 o'r CSCA yn amlwg yn cael ei anwybyddu?

Yng ngoleuni'r ffaith fod rhan 2.1 o strategaeth CSCA Powys 2017 -2020 yn datgan "mae'r gwaith dichonoldeb cynnar wedi adnabod y Drenewydd a/neu Trallwng fel y lleoliad(au) mwyaf addas i ddatblygu darpariaeth newydd categori 2A" sut ydych yn ymateb i benderfyniad Cyngor Powys i anwybyddu'r cymal hwn heb unrhyw ymgynghoriad?

Edrychaf ymlaen am eich ymateb.

Yn gywir,